Bywyd Yn Mynd Yn Ei Flaen

Glaw ar y ffenest
Olew'n y dŵr
Gwyliwr y glannau
Wrth ffenest y twr
Cychod wrth angor
Cloc ar y mur
Munudau olaf
Y dyfroedd pur.

Gwynt yn y simne
Storom a ddaw
Mas ar y tywod
Yn y dwyrain draw
Rhywbeth i brofi
Cwestiynau di ri'
Yr ateb yn llifo
Drwy y pibe du.

Eira'r Y Picws
Gaeaf a ddaw
Sŵn cloch ar yr awel
O'r pentref gerllaw
Rhywun yn ffonio
Dim byd yn bod
Amser i feddwl
Am yr hyn sydd i ddod.

Cysgodion yn 'mestyn
Penllanw ddaw cyn hir
Bywyd yn mynd yn 'i fla'n.

© Geraint Griffiths 2005